



## **Pori Natur a Threftadaeth CYFANSODDIAD**

### **1. DATGANIAD CENHADAETH**

- 1.1 Mae PONT yn gwmni dielw sy'n gweithio gyda ffermwyr, porwyr a sefydliadau yng nghefn gwlad Cymru i ddarparu manteision i fywyd gwyllt o bori fel rhan o systemau rheoli amaethyddol a chadwraeth integredig, hyfyw a chynaliadwy.

### **2. AMCANION**

- 2.1 Prif amcan PONT yw gweithio gyda ffermwyr, perchnogion tir eraill a phorwyr i annog a hwyluso pori er lles bywyd gwyllt, y tirlun a threftadaeth ddiwylliannol Cymru. I'r diben hwn, bydd PONT yn gwneud y canlynol:

- Hwyluso sefydlu cynlluniau pori lleol a datrysiadau safle unigol i gyflwyno rheolaeth ar bori er lles bywyd gwyllt.
- Cynnal perthynas gyda GAP UK a'i gefnogi.
- Gweithredu fel cyfryngwr ar gyfer gwybodaeth sy'n berthnasol i Gymru drwy gasglu manylion am gynlluniau pori lleol, rhannu arferion da a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r rhai sydd ei hangen neu'n gofyn amdani.
- Mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill sydd ag amcanion tebyg, ceisio hyrwyddo cadwraeth yng Nghymru a lleihau dyblygu ymdrechion.
- Ceisio cyflwyno gwybodaeth ar gyfer y farn a'r polisi yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, a dylanwadu arnynt a'u llywio.
- Yn benodol, ceisio dylanwadu ar bolisïau perthnasol Llywodraeth Cymru yn y presennol a'r dyfodol ar faterion yr amgylchedd a chefn gwlad yn ehangach, yn enwedig mewn perthynas â datblygu a gweithredu cynlluniau a mentrau amaeth-amgylcheddol; mecanweithiau cyllido eraill a rhoi Deddf yr Amgylchedd, y Cynllun Adfer Natur a Chynlluniau Gweithredu Blaenoriaeth Natura 2000 ar waith.
- Prydlesu neu brynu tir, eiddo, stoc neu beiriannau i alluogi camau gweithredu i reoli sy'n gyson a rhoi cynllun gwaith presennol PONT ar waith.

- 2.2 Bydd y rheolaeth weithredol ar PONT yn cael ei rhoi ar waith gan Fwrdd Cyfarwyddwyr PONT (a elwir wedi hyn yn Fwrdd PONT) ac mae'n cael cyngor gan Grŵp Cyngori.
- 2.3 Bydd y Bwrdd yn gweithio i gyflwyno rhaglenni gwaith sydd wedi'u datblygu gan y staff yn unol ag amcanion a nodau cyffredinol PONT, sy'n cael eu pennu gan gyrff cyllido.
- 2.4 Mae penderfyniadau mawr yn cael eu gwneud gan Fwrdd PONT a / neu'r staff rheoli, ac eithrio enwebu a chymeradwyo aelodau Bwrdd newydd - y Grŵp Cyngori sy'n ymgymryd â hynny.
- 2.5 Mae unigolion yn y CCB yn gymwys i gymryd rhan mewn pleidlais i enwebu aelodau Bwrdd newydd ac maent yn gymwys i gael un bleidlais. Ni chaniateir pleidleisiau procsi.

### **3. BWRDD CYFARWYDDWYR PONT**

- 3.1 Gweinyddir PONT gan Fwrdd PONT.
- 3.2 Caiff y Bwrdd ei ethol gan y Grŵp Cyngori yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol (CCB) neu mewn Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol (CCE), am dymor o dair blynedd. Ar ôl hynny, byddant yn gymwys i gael eu hailethol am dymor pellach o dair blynedd. Dylai'r ymgeiswyr gynrychioli trawstoriad o'r rhai sy'n ymwneud â rhoi amcanion a nodau PONT ar waith. Bydd Cadeirydd, Is-Gadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd yn cael eu hethol gan Grŵp Cyngori PONT.
- 3.3 Gellir sefydlu Grŵp Rheoli Gweithredol i ddarparu penderfyniadau ar lefel uchel ar gyfer rhaglenni a gyllidir yn benodol.
- 3.4 Bydd Bwrdd PONT yn cynnwys dim llai na phedwar a dim mwy nag wyth aelod.
- 3.5 Y cworwm ar gyfer holl gyfarfodydd Bwrdd PONT fydd o leiaf 4 aelod o'r Bwrdd yn bresennol yn bersonol neu'n rhithiol. Yn absenoldeb y Cadeirydd o unrhyw gyfarfod, bydd aelod arall o'r Pwyllgor yn llywio'r gweithgareddau.
- 3.6 Os bydd unrhyw aelodau'n ymddiswyddo o Fwrdd PONT neu'n gadael, bydd y Grŵp Cyngori'n penodi cynrychiolydd arall o blith aelodau'r Grŵp Cyngori.
- 3.7 Efallai y bydd Bwrdd PONT yn sefydlu gweithgorau am gyfnodau cyfyngedig o amser.
- 3.8 Bydd Bwrdd PONT yn ceisio dod i benderfyniad drwy gonsensws. Os nad yw hyn yn bosib, bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy fwyafrif y pleidleisiau a bydd gan y cadeirydd bleidlais benderfynu.

### **4. GRŴP CYNGHORI PONT**

- 4.1 Rôl allweddol y Grŵp Cyngori yw cyfrannu gwybodaeth at gyfeiriad strategol PONT, gan ddarparu cyngor arbenigol pan fo problemau'n codi ac enwebu a chymeradwyo aelodau Bwrdd newydd.
- 4.2 Bydd aelodaeth o'r Grŵp Cyngori'n agored i'r holl unigolion a'r sefydliadau sy'n gweithio gydag ac yn cynrychioli ffermwyr a phorwyr, er mwyn darparu manteision bywyd gwyllt o bori i gefn gwlad Cymru, fel rhan o systemau rheoli amaethyddol a chadwraeth integredig, hyfyw a chynaliadwy. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â chynlluniau pori lleol yn cael eu hannog i fynychu Cyfarfodydd y Grŵp Cyngori.

- 4.3 Efallai y bydd y Grŵp Cynghori, drwy Fwrdd PONT, yn gwahodd unrhyw sefydliad sydd ag amcanion tebyg i fod â chynrychiolydd ar y Grŵp Cynghori.
- 4.4 Bydd y Grŵp Cynghori'n cynghori ac yn cefnogi Bwrdd PONT a staff PONT.
- 4.5 Hefyd bydd Cadeirydd Bwrdd PONT yn cadeirio cyfarfodydd y Grŵp Cynghori.

## **5. GWEINYDDU**

- 5.1 Bydd Bwrdd PONT, drwy ei Gadeirydd, yn cyfarwyddo gwaith staff PONT ac unrhyw gontractwyr sy'n ymwneud â rheoli prosiectau PONT neu roi cynllun gwaith presennol PONT ar waith. Efallai y bydd Bwrdd PONT yn penderfynu dirprwyo'r rôl yma i'r staff.
- 5.2 Bydd Bwrdd PONT yn adolygu amcanion PONT yn gyson. Os oes angen diwygio amcanion PONT, rhaid i fwyafrif pleidleisiau Bwrdd PONT dderbyn hyn.
- 5.3 Os na fydd digon o adnoddau i gynnal PONT ar gael mwyach, neu os na fydd yr angen am PONT yn bodoli mwyach, efallai y bydd Bwrdd PONT, drwy fwyafrif, os oes cworwm yn y cyfarfod, yn pleidleisio i ddiddymu PONT, yn amodol ar anrhydeddu unrhyw ymrwymadau cyfreithiol ac ariannol cyfredol.

## **6. CYLLID**

- 6.1 Bydd PONT yn codi arian drwy unrhyw gyfryngau cyfreithiol priodol i gyllido'r gweithgareddau a ddisgrifir yng nghynllun gwaith PONT.
- 6.2 Cwmni dielw yw PONT. Ni ellir rhannu unrhyw gyfranddaliadau, dididendau, elw na bonws. Os bydd mwy o incwm o gymharu â gwariant mewn unrhyw flwyddyn ariannol, bydd y gwarged yn cael ei fancio a'i roi tuag at gostau cyflawni amcanion PONT yn ystod y flwyddyn ganlynol. Ni ddylai PONT fynd i ddyled ar unrhyw adeg.
- 6.3 Bydd PONT yn gofalu am ei gyfrifon banc ei hun. Mae angen llofnod un aelod o'r Bwrdd ac un aelod o staff ar gyfer pob taliad.
- 6.4 Bydd y Trysorydd yn gyfrifol am weinyddu cyfrifon banc PONT ac yn darparu cyfrifon blynyddol ariannol syml ar gyfer y CCB. Bydd y gwaith gweinyddu ariannol o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan staff PONT. Daw'r flwyddyn ariannol i ben ar y 1<sup>af</sup> o Orffennaf bob blwyddyn. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i Fwrdd PONT yng nghyfarfod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Bydd y cyfrifon ar gael ar gyfer eu harchwilio gan unrhyw un o archwilwyr yr aelodau.
- 6.5 Gofynnir i gyfrifydd lunio cyfrifon ffurfiol wedi'u harchwilio ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ac i lunio adroddiad ysgrifenedig i Fwrdd PONT.
- 6.6 Os bydd Bwrdd PONT yn diddymu PONT, ac unwaith y bydd ei holl ddyledion a'i atebolrwydd wedi'u bodloni, os oes unrhyw eiddo ar ôl, ni fydd yn cael ei dalu i aelodau'r cwmni na'i ddsbarthu yn eu plith. Yn hytrach, bydd yn cael ei roi neu ei drosglwyddo i sefydliad dielw arall (gweler y Memorandwm o Erthyglau Pwynt 6).

## **7. CYFARFODYDD**

### **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB)**

- 7.1 Bydd PONT yn cynnal CCB. Bydd aelodau Bwrdd PONT a'r Grŵp Cynghori yn ei fynychu a bydd yn cael ei gynnal ddim llai na 10 mis ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol blaenorol a dim mwy na phedwar mis ar ddeg ar ei ôl.
- 7.2 Bydd ysgrifennydd PONT yn rhoi dim llai na 21 diwrnod o rybudd i'r holl aelodau o ddyddiad, amser a lleoliad y CCB drwy'r post neu drwy ffurf electronig.
- 7.3 Cworwm y CCB fydd 12 aelod o'r Grŵp Cynghori ac o leiaf 4 aelod o Fwrdd PONT.

### **Cyfarfodydd Bwrdd PONT**

- 7.4 Argymhellir bod Bwrdd PONT yn cyfarfod 3 gwaith o leiaf yn ystod unrhyw flwyddyn galendr i weithredu busnes PONT. Bydd yr ysgrifennydd yn gyfrifol am roi gwybodaeth gyson i'r Grŵp Cynghori am y busnes sy'n cael ei drafod yng nghyfarfodydd Bwrdd PONT.

### **Cyfarfodydd y Grŵp Cynghori**

- 7.5 Argymhellir bod y Grŵp Cynghori'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn o leiaf yn ystod unrhyw flwyddyn galendr i drafod materion pori penodol, a chyfleoedd, ac i ddatblygu cyngor i Fwrdd PONT a staff PONT. Efallai y caiff un cyfarfod ei gyfuno gyda chyfarfod o Fwrdd PONT. Dylai'r llall geisio bod yn gyfarfod am ran o'r diwrnod a hefyd ymweliad â phrosiect arddangos neu esiampl o arfer da mewn pori er lles bywyd gwyllt ar gyfer y rhan arall o'r diwrnod.

## **8. POLISI IAITH**

- 8.1 Mae PONT yn ymdrechu i fod yn sefydliad dwyieithog a bydd yn cyflwyno ei waith yn unol â'i Bolisi Iaith Gymraeg (gweler y polisi ar wahân).

## **9. POLISI AMGYLCHEDDOL**

- 9.1 Bydd staff a swyddfeydd PONT yn defnyddio darparwyr gwasanaeth cynaliadwy, moesegol a lleol, yn manteisio i'r eithaf ar y defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu ac y gellir eu hailgylchu, yn ailgylchu pob deunydd y mae posib ei ailgylchu, yn defnyddio offer ynni effeithlon ac yn sicrhau'r holl drydan a ddefnyddir o ffynonellau adnewyddadwy.
- 9.2 Bydd PONT yn lleihau'r allyriadau carbon seiliedig ar danwyddau ffosil a gynhyrchir drwy ei waith.
- 9.3 Bydd PONT, drwy esiampl, yn hybu lefelau uchel o gyfrifoldeb amgylcheddol a chorfforaethol.

## **10. POLISI CYFLEOEDD CYFARTAL**

- 10.1 Mae PONT wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfleoedd cyfartal mewn cyflogaeth ac mae'n datgan ei wrthwynebiad i unrhyw ffurf ar driniaeth lai ffafriol, boed drwy wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol yn erbyn ei gyflogeion neu ymgeiswyr am swyddi, ar sail eu hil, crefydd neu gred, lliw, anabledd, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, statws priodasol/rhiant, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

## **11. POLISI GWAHANIAETHU AR SAIL ANABLEDD PONT**

11.1 Wrth gyflawni ei swyddogaethau, bydd yn rhoi ystyriaeth i'r angen am y canlynol:

- Hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl anabl a phobl eraill.
- Dileu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.
- Dileu aflonyddu ar bobl anabl sy'n gysylltiedig ag anabledd.
- Hybu agweddau cadarn tuag at bobl anabl.
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl anabl, hyd yn oed os yw hyn yn galw am driniaeth fwy ffafriol.

## 12. ADOLYGU

12.1 Bwrdd PONT sy'n gyfrifol am adolygu'r cyfansoddiad a bydd yn gwneud hynny yn unol â'i ddisgresiwn.

*Mae Pori Natur a Threftadaeth Ltd yn gwmni dielw sy'n gyfyngedig drwy warant, cofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 7353806*